4.144

# CAN O GLOD

I

# J. J. GUEST, YSWAIN

*Ar ei gynnygiad y drydedd waith yn Gynnrychiolwr yn y Senedd dros Ferthyr Tydfil a'i Hamgylchoedd, Gorphenaf, 1837, yn nghyd ag ychydig grybwylliad am ei aml rinweddau Ef, a'i Foneddiges.*

---

*Cenir ar y dôn a elwir,* "Calon Derwen."

---

Gorfoledd, gorfoledd, O! rhyfedd fawrhad,
Mae'r haul yn dysgleirio i 'leuo'r hen wlad;
Er cymmaint fu'r t'wllwch mawr dristwch am dro,
Daw eto ddiddanwch hyfrydwch i'r fro;
Dan GUEST ai wir fryd cawn gysur i gyd,
Rhag trais a pheryglon gelynion mae'n glyd:—
Yn fur, neu graig fawr, mae'n barod bob awr,
I gadw modd diflin hoff râd y cyffredin,
O'i gariad modd gwiwrin i'r gwerin mae'n gawr;
Dyrchafwn ein llef, yn awr hyd y nef,
Hir einioes hyfrydlon i GUEST ein llyw tirion,
A'i Wraig gan Ior union un galon âg ef.

Er cymmaint gwrth'nebwyr trwy Ferthyr a fu,
Daeth cyfiawn ragluniaeth iawn doraeth o'i du,
Gorchfygodd y trawsion, a'r mawrion wŷr maith,
Heb ddial o'i ddwylo, na gwyro un graith;
Mal cristion gwir yw, mae beunydd yn byw,
Gan wneud ei ddyledswydd yn rhwydd i bob rhyw
Yn Llundain wr llâd, bydd dyner fwyn dad,
I'r brython heb ŵyro, â'i cyfaill i'w cofio,
Heb rith myn areithio er llwyddo'n gwellhad.
Dyrchafwn, &c, &c.

Mae dysg i dylodion blant gweinion i'w gael,
Gan GUEST a'i gydmares o'u mynwes er mael;—
Moesoldeb a Chrefydd y sydd er lleshad,
Yn deilliaw i'r gwerin, o'i rhrin eto'n rhad;
Daw bendith heb au, yn ddidwyll i'r ddau,
Am gofio'r tylodion yn llon a'u gwellhau;
Ni welant hwy drai, eu llwydd nid â'n llai,
Ond deillia trysorion mal dyfroedd o afon,
Yn hylaw i'r haelion da fwynion di fai,
Dyrchafwn, &c. &c.

Diwallu'r tylodion o'r bron yw eu bryd,
A'u llanw yn brysur o gysur i gyd:—
O'u bwydydd a'u dillad y wlad ga fawr lwydd,
Mae dwylaw bob ennyd'n agoryd i'w gwydd;
Mewn oes nid oes dyn a dd'weda'n ddi wŷn,
Mor aml eu rhinweddau heb ammeu bob un;
Er llwydd i'w gwellhau, mae'n ddiwyd y ddau,
I dynu'n gyfrodedd eu cwys er anrhydedd,
Neu gario'n gywir wedd, dr*y rinwedd yr iau,
Dyrchafwn ein llef, yn awr hyd y nef,
Hir einioes hyfrydlon i GUEST ein llyw tirion,
A'i Wraig gan Ior union un galon âg ef.

CYMMYDOG.

X 2052 20427

| Mens' Names, Ages, Qualities, Time when and where taken Ill. | The History, Sym |
|---|---|
| | |